



Pris: 50c

Papur Pawb

Chwefror 2018

Rhif 436



Llun: Simon Basset

Glyn Ovens – Syrffio i'r Eithaf, tud 12

tud 3

Ysgol Tal-y-bont

tud 6

Cyflymder Traffig

tud 10

Awtistiaeth

tud 11

Dysgwr y Mis

Glaw, glaw, glaw!



Moelgolomen



Roedd yr ardal dan ddŵr unwaith eto. Ar ôl glaw anarferol o drwm drwy gydol prynhawn dydd Sul, Ionawr 21, ac o ganlyniad cododd lefelau afonydd Ceulan a Leri yn beryglus o gyflym. Yn sgil profiadau'r gorffennol, cyhoeddwyd rhybudd o lifogydd difrifol ar draws ardal Papur Pawb.

Gwelwyd ffyrdd dan droedfeddi o ddŵr yn Nhre Taliesin, Tal-y-bont a Bont-goch ac ychydig tu hwnt i'r hen felin, ar yr afon Ceulan yn Nhal-y-bont, cafodd y lan ei herydu gan y llif pwerus. Llithrodd rhan o'r tir i'r afon gan dynnu coeden dderwen fawr o'i gwraidd. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach cwmpodd y goeden hon i'r afon gan fwrw ceblau ac achosi toriad yng nghyflenwad trydan y pentref.

Pan giliodd lefel y dŵr ddigon, mentrodd Barry Morgan, Denise Morgan a Mick Fothergill i'r afon i dorri cymaint o ganghennau â phosibl a chlirio'r gweddillion a'r llanast o'r afon i helpu'r afon i lifo'n haws. Ni lwyddwyd i symud y goeden i gyd gan y byddai hynny wedi bod yn rhy beryglus. Mae gwreiddiau trwchus y goeden yn dal i orwedd ar lan serth yr afon.

Y tro hwn, gostegodd y glaw yn gyflym ac ni phrofwyd y math o ddifrod na phrofi'r un math o lanast â llifogydd 2012, ond roedd yn ddigon i'n hatgoffa o'r dinistr a allai fod wedi digwydd. Bydd yn rhaid parhau i fonitro'r sefyllfa a mynd ati i benderfynu pa gamau i'w cymryd yn y dyfodol.

Gweler hanes y llifogydd yn Nhre Taliesin ar dudalen 5.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths (01654) 703635
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams
Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Chwiorydd yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 9^{fed} o Ionawr. Ein gwesteion oedd Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch a Trefor Puw, Trefenter, dau sy'n amlwg iawn yn cadw'r traddodiad Cymreig o ganu plygain yn fyw. Eglurodd Rhiannon drefn gwasanaeth Plygain mewn eglwys, a chydganodd y ddau nifer o garolau yn ddigwyfeiliant ac yn swynol iawn. Diolchwyd iddynt am brynhawn dymunol iawn, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Humphreys a Carys Briddon.

NOSON HWYL DDEWI 2018

Gyda Bois y Gilfach

Neuadd Goffa Tal-y-bont

Nos Sadwrn, 3 Mawrth 2018

Adloniant i gychwyn am 7.30

Gweinir y cawl am 6.30

£8 i oedolion / £4 i blant ysgol



Dyddiadur

CHWEFROR

- 11 Bethel 2 Richard Lewis
Rehoboth 2 Judith Morris
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Gwasanaeth Boreol
- 12 Cwrs Paentio Mandalâu 7-9 Cletwr
- 13 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 'Hanes Dolclettwr' (Rowland Davies)
Cwrs Dysgu Cymraeg (Medi James) 6.45-8 Cletwr
Cyfarfod Blynnyddol Sioe Llangynfelyn 7.30 Llanfach
Tenis Bwrdd 7 Ystafell
Haearn, Eglwysfach
- 15 Tai Chi 2.30 Ystafell
Haearn, Eglwysfach
- 16 Cwis 8 Wildfowler
- 17 'Dal ati' Cyfle i gwrdd â dysgwyr eraill 11-12 Cletwr
- 18 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 10 Rhidian Griffiths
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyl Weddi
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gweddi Hwyl
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid
Tro hanesyddol o gwmpas Tre'r-ddôl a Thaliesin (Cymraeg) 11-1.30 Cletwr
- 19 Merched y Wawr Tal-y-bont
a'r Cylch 'Paned o de i roi'r byd yn ei le' (Rhian Bebb)
Cwrs Paentio Mandalâu 7-9 Cletwr
- 21 Dawnsio Albanaidd 7.30
Ystafell Haearn, Eglwysfach
- 22 Tai Chi 2.30 Ystafell
Haearn, Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler
- 23 Cyfarfod PCC 2 Ystafell
Haearn, Eglwysfach
Sesiwn Nos Wener (Arfon Gwilym a Sioned Webb)
8 Llew Gwyn, Tal-y-bont

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Cathryn a Llio, gyda Tanwen yn dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf, sef mis Mawrth, fydd Geraint ac Eirian (eirianageraint@gmail.com). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 2 Mawrth, a bydd y papur ar werth ar 9 Mawrth.

- 24 Bore Coffi 10.30-12 Ystafell
Haearn, Eglwysfach
Cyngerdd 7.30 Capel y Graig, Ffwrnais
- 25 Bethel 10 Richard Lewis (C)
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Gwasanaeth Boreol
- 26 Cwrs Paentio Mandalâu 7-9 Cletwr
- 27 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn 'Hen fapiau ac arweinlyfrau' (Ania Skarzynska) 7.30 Llanfach
Tenis Bwrdd 7 Ystafell
Haearn, Eglwysfach

MAWRTH

- 2 Cwis 8 Wildfowler
- 3 Noson Hwyl Ddewi gyda Bois y Gilfach, 6.30 Cawl, 7.30 Adloniant, Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 4 Bethel 5 Richard Lewis
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 5 Elwyn Pryse
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
Tro hanesyddol o gwmpas Tre'r-ddôl a Thaliesin (Saesneg) 11-1.30 Cletwr
- 5 Cwrs Paentio Mandalâu 7-9 Cletwr
- 11 Bethel Uno yn Nasareth
Nasareth 10 John Tudno Williams
Rehoboth 10 J.E. Wynne Davies
- 13 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 'Llyfrau ar fy silff' (Delyth Morris-Jones)
RSPB (Dave Anning, Rheolwr Ynys-hir)
7.30-9 Cletwr



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Croeso

Croeso cynnes iawn i Anthony, Kath ac Alys sy'n symud i fyw i Lys-y-coed, Taliesin, yn nes ymlaen ym mis Chwefror. Gobeithio y byddan nhw'n hapus iawn yma.

Pob dymuniad da i Manod Williams ac Emma Davies sydd wedi dod i fyw i'r Garth, Tal-y-bont.

Dymuniadau gorau i Dilwyn a Marian Evans, Tynant, sydd wedi teithio i Seland Newydd gan fod Dilwyn yn rheolwr tîm cneifio Cymru.

Penblwyddi arbennig

Pob dymuniad da i Mark Ebenezer, Maesyfelin, Tal-y-bont a fu'n dathlu penblwydd arbennig iawn. Un arall a ddathlodd benblwydd arbennig oedd, Lynwen Morgan, Pentrebach, Tal-y-bont.

Dymuniadau gorau hefyd i Janet Jones, Llwynglas, Michael Rowlands Maes-y-Felin a Nicky Burns, Bronhaul, Tal-y-bont ar eu penblwyddi. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Chris Gilbert, Swn-y-nant, Tre'r ddôl ar ddathlu ei phenblwydd arbennig.

Panto

Llongyfarchiadau mawr i Miriam am gael ei dewis i'r panto blynyddol yng Nghanolfan y Celfyddydau eleni ac am ei pherfformiad graenus.

Symud tŷ

Dymunwn bob hapusrwydd i Jenny Fell sydd wedi symud o 18, Pencae, Taliesin i'w chartref newydd yn y Bont-faen (Forge) ger Machynlleth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont, ar golli brawd yng nghyfraith, sef Geoff Hammond yn Wem, ger Amwythig.

Cydymdeimlwn â theulu Derek Dowsett, Y Lanfa, Aberystwyth a fu farw yn ddiweddar. Tad i Jenny Fothergill, Minafon, a Dai Dowsett, Is-y-coed, Tal-y-bont. Hefyd taid i Ben a Jo Fothergill a Cian Llywelyn, a hen daid i Ari. Cydymdeimlwn hefyd â Nick Dowsett a'r teulu yn Sir Benfro, ac â Mick a Su.

Pobl a Phethe



Nos Sadwrn, 20^{fed} o Ionawr, cynhaliwyd cinio blynyddol Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yng Ngwesty'r Marine i ddathlu blwyddyn lwyddiannus

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys hefyd ag Emyr Evans, Hen Siop Esgidiau a Caroline Evans, Elgar, Tal-y-bont ar golli eu tad yn ddiweddar.

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Mrs Delyth Averil Barratt (Ebenezer gynt) a fu farw yn 88 mlwydd oed ar 30 Rhagfyr 2017.

Cofion Cynnes

Wedi cyfnod o wythnosau yn ysbyty Bronglais y mae Mrs Valma Jones, Wern, Tal-y-bont, bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref Nyrsio Cysgod y Coed, Llanilar. Yno hefyd y mae Mr Harold Lewis, gynt o Langynfelyn a Thal-y-bont. Cofion cynnes iawn at y ddau ohonoch.

Garej Davmor

Mae Garej Davmor yn dathlu pum mlynedd dan berchnogaeth y teulu Clarke a chyflwynwyd rhai newidiadau yn y busnes yn ddiweddar. Bellach mae modd prynu brechdanau a rholiau cig moch ffres a blasus a ddarperir ar y safle. Mae datblygiadau eraill yn y gwasanaeth trwsio wrth i'r mecanic Ben Bradley lwyddo yn ei arholiadau NVQ.

Swydd Newydd

Pob dymuniad da i Hedydd Mai Phylip, Gwynionydd, Tal-y-bont ar ei swydd newydd fel Cydymaith Ymchwil, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd.

GOHEBYDD NEWYDD

Rydym yn falch o gyhoeddi mai gohebydd newydd Ysgubor-y-coed yw Non Griffiths, Fferm Ffwrnais. Dylid cysylltu â Non gyda newyddion neu adroddiadau o'r plwyf drwy e-bost: nongriff@live.co.uk neu dros y ffôn: (01654) 703635

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Kara Wyn Jones a Sam Penfold, Tre'r ddôl, ar enedigaeth mab bach, Ralffi Wyn.

Llongyfarchiadau i Tina a Dylan Lewis, Felinfach ar enedigaeth Cadi Rhys, wyres fach i Huw a Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl.

Llongyfarchiadau i Chloe Birds a Robbie Taylor, Taliesin ar enedigaeth mab bach, Bran.

Gwellhad buan

Dymunwn yn dda i Mr Glyn Harker, Maes-y-deri sydd wedi cwmpo'n ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Aeron Edwards sydd yn yr ysbyty yng Nghaerdydd.

Priodasau

Llongyfarchiadau i Rhiannon Evans a David Kohler, Tanybryn, Eglwysfach ar eu priodas yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi'ch dau.

Priododd Glyn Ovens Tan y Cae, Tal-y-bont â Lucy Hill yn y Llyfrgell Genedlaethol ym mis Medi.



Glyn Ovens a Lucy Hill

Morlan

Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

NOSON GWIS MORLAN
7.30, nos Fercher, 7 Chwefror
Cwis blynyddol ble mae timau o eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm? Neu dewch draw i gefnogi!

OEDFA GWYL DEWI
10.00, bore Sul, 4 Mawrth
Ymwunwch â ni i ddathlu ein nawdd sant yn yr oedfa arbennig hon sy'n rhan o weithgareddau penwythnos Parêd Gŵyl Dewi.

morlan.cymru
01970-617996: post@morlan.cymru

Ysgol Tal-y-bont

YSGOL IACH



Gwobr Efydd

Ers misoedd bellach, rydym wedi bod yn cydweithio gyda Sustrans Cymru ar agweddau o gadw'n iach a diogel. Yn ystod mis Mawrth, roedd yr ysgol wedi bod yn rhan o'r Big Pedal, cystadleuaeth ar draws gwledydd Prydain i annog defnyddio beic neu sgwter i ddod i'r ysgol. Oherwydd i'r ysgol ennill un o'r cystadlaethau yng Nghymru, cafwyd gwobr arbennig, sef arddangosfa seiclo BMX gan y byd enwog Matti Hemmings. Mae Matti'n bencampwr yn ei faes ac mae'n dal nifer o recordiau byd, ac roedd y plant, a'r staff, wrth eu boddau wrth ryfeddu at ei ddoniau a'i driciau. Diolch yn fawr i Sioned a Sustrans am drefnu'r digwyddiad ac i'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn am gyflwyno'r sioe i ni – profiad bythgofiadwy!

Hyfforddiant Sgwteri



Ar ddydd Mercher 23^{ain} o Ionawr 2018 daeth Sioned o Sustrans Cymru i'n dysgu sut i reidio sgwteri'n ddiogel. Yn gyntaf dangosodd Sioned i ni sut i sefyll ar sgwter yn gywir. Yna dangosodd hi i ni ffyrdd gwahanol o stopio. Nesaf dysgodd i ni sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Fe gawsom lawer o hwyl efo Sioned. Ar ran yr ysgol diolch yn fawr iawn i Sioned am ddod i'r ysgol ac am ddysgu ni am bwysigrwydd bod yn ofalus ar y ffordd ar ein sgwteri.

Celsea a Miriam

Corgudd

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o ddiddordeb yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd eleni. Y gamp eleni i fechgyn a merched hŷn yr ysgol oedd paratoi salad Asiaidd creisionllyd, a hynny mewn awr! Ar ôl cystadlu brwd, yr enillydd eleni oedd Miri a bydd hi nawr yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf – pob lwc i ti. Hoffwn ddiolch i Mrs Myfanwy James am y dasg anodd o feirniadu eleni eto.



LLANGRANNOG



Ymwelwyr Arbennig

Anifeiliaid yw thema y cyfnod Sylfaen y tymor yma ac roedd hi'n hyfryd i groesawu Tomi a Lwllw i'r ysgol yn ystod y mis.



Llangrannog

Yn ystod mis Ionawr aethon ni i aros yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Aethon ni yno mewn bws ac mewn ceir. Ar ôl cyrraedd roedden ni wedi mynd i ein stafelloedd a dad-bacio. Cinio oedd nesaf, pítsa a sglodion blasus. Wedyn roedden ni wedi mynd i gwibgartio gyda Sarah. Roedd hi'n gyffrous i lithro lawr y llethr. Wedyn aethon ni i wneud saethyddiaeth ac fe gafodd Miss Scollan bull's eye! Aethon ni nôl i'r Neuadd i gael te, creision a sudd oren. Ar ddiwedd y prynhawn roedden nhw wedi rhannu ni i ferched a bechgyn. Aeth y bechgyn ar y trampolîn a merched ar y cwods. Ar ôl hynna aethon ni i chwarae gemau potes gyda ysgolion eraill. Yn y siop doedd dim lot o ddewis yna ond oedd yn well na dim byd. Nesaf roedd disgo. Fuon ni'n dawnsio Dawns Mr Urdd oedd yn hwyl a bach fel yr 'hôci côci'. Aeth pawb i'r gwely wedi blino'n lân.

Yn y bore ar ôl brecwast aethon ni ar y ceffylau. Roedd hynny'n llawer o hwyl. Wedyn aethon ni i ddringo, roedd y wal yn dringo'n uchel ac roedd dod i lawr yn anodd. Yn olaf aethon ni i nofio. Roedd y pwll nofio yn gynnes iawn. Ond cyn gadael roedd yn rhaid i ni gael cinio – mmmm blasus iawn!

Diolch yn fawr i staff y gwersyll am y gweithgareddau ac i Miss Morris a Miss Scollan am ddod gyda ni.

Elen a Hopcyn



Ymweliad gan yr Heddlu

Yn ystod y mis cafodd plant blwyddyn 5 a 6 ymwelydd arbennig. Daeth P.C Hannah i siarad efo ni am "Wnes i ddim meddwl". Fe wylion ni sawl clip fideo am fachgen o'r enw Ricky yn gwneud pob dim roedd ei ffrind yn dweud wrtho. Yn y diwedd fe gwmpodd Lucy ei chwaer fach ar wydr yr oedd Ricky wedi taflu yn y parc. Wedi hynna, siaradodd P.C Hannah efo blwyddyn 6 am beryglon cyffuriau. Fe gawsom ni lawer iawn o hwyl ac fe wnaethon ni ddysgu llawer o ffeithiau hefyd. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at yr ymweliad nesaf gyda P.C Hannah.

Efa a Carys


Gala Nofio

Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio. Mae Cylch Aberystwyth yn cynnal sawl gala nofio yn ystod y mis a gwelwyd llawer o blant Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu'n frwd unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn enwedig i Caoimhe a Miri a gyrhaeddodd y gala derfynol. Da iawn chi.

Diolch

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi'r ysgol wrth roi hen ddillad i elusen Bags2School. Mae plant yr ysgol yn elwa'n fawr o'r cynllun yma.

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Mae'r Cylch yn parhau'n brysur eleni, o ran niferoedd ac o ran gweithgareddau.


Diolch i gyfraniad hael gan Gronfa Eleri, bu modd gwneud nifer o welliannau i'r adeilad a'r ardal tu fas, ac mae'r plant a'r staff yn elwa'n fawr ohonynt.

Y pwysicaf o'r datblygiadau hyn fu creu ardal ar gyfer sesiynau un-i-un. Mae ardal o'r fath yn bwysig ar gyfer sesiynau therapi iaith a lleferydd, cefnogaeth ychwanegol, ac i gynnal asesiadau o wahanol fathau. Bu rhoi drws allanol newydd sbon, cau'r fynedfa i'r toiledau o'r cyntedd, ac ychwanegu ffenest o'r brif ystafell, yn fodd i greu gofod llawer fwy clyd ac addas at y pwrpas.

Bu gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar yr adeilad, ac ar yr ardal chwarae tu fas.

Mae rhagor o syniadau gan y pwyllgor - yn enwedig ar gyfer gwellar cyfleusterau chwarae tu fas, felly mi fydd y gweithgareddau codi arian yn parhau eto eleni. Mi fyddwch yn siŵr o glywed amdanynt yn nhudalennau Papur Pawb.

Un fenter arall sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yw'r Clwb Brecwast. Mae'n golygu bod y Cylch yn gallu agor ei ddrysau am 8.15 bob bore (yn hytrach na 9 o'r gloch), am dâl bach ychwanegol o £2. Mae'n wasanaeth gwirioneddol werthfawr i rieni sy'n gweithio ac angen bod yn y gwaith erbyn 9, ac mae'n brysur bob bore erbyn hyn.



Dilyw yn Nhre Taliesin

Ar ôl cyfnod o law trwm, cafodd sawl un dipyn o fraw wrth weld cymaint o ddŵr yn rhuthro fel afon heibio i'w tai yn ardal Pencae, Taliesin, ddydd Sul 21 Ionawr. Yn anffodus, roedd y nant sy'n mynd heibio i adfeilion Troedfyfedwen yn y coed wedi gorlifo i lawr y briffordd i'r pentre ac i mewn i amryw o dai, gan sgubo llwyth o fwd a sbwriel gyda hi. Roedd y nant hefyd wedi gorlifo dros y ffordd fach ger Tanyrallt gan achosi problemau yno. Mae'n debyg bod hyn wedi digwydd o'r blaen yn y pentref ac rydyn ni'n cydymdeimlo'n fawr â phawb sy'n dioddef o'i herwydd. Yr unig gysur oedd bod cymaint o bobl o'r fro wedi dod i gynnig help. Mae sawl ffynnon a nant yn llifo ar y ffyrdd neu'r palmentydd yn y pentref ar hyn o bryd a chyda newid ym mhatrymau'r tywydd a'r glaw cyson, yn bownd o achosi pryder yn y dyfodol oni bai bod rhywbeth yn gallu cael ei wneud yn eu cylch.



Eglwys St. Pedr, Elerch

Pur anaml mae gwasanaethau Eglwys St. Pedr, Elerch, Bont-goch yn cael eu gohirio oherwydd y tywydd, ond fel nifer o addoldai eraill yn yr ardal, methwyd â chynnal gwasanaeth oherwydd y glaw trwm. Fe wnaeth y Ficer ymdrech deg i gyrraedd, ond methodd â mynd heibio'r llifogydd yn ardal Penrhyn-coch, a bu'n rhaid galw'r oedfa i ffwrdd ar y funud olaf.

Cyfarfod i drafod cyflymder y traffig yn Nhal-y-bont

Ddechrau'r mis cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Nhal-y-bont i drafod rhai o bryderon cynyddol ynglyn a chyflymder y traffig ar y brif ffordd. Yn y cyfarfod gydag Elin Jones, Aelod Cynulliad Ceredigion, a'r cynghorydd Ellen ap Gwynn, trafodwyd nifer o welliannau posib i'r sefyllfa bresennol. Roedd David Bryant a Patrick Laverty yn y cyfarfod a dyma grynhoi eu barn nhw am y sefyllfa.



Yr A487T yw'r brif ffordd sy'n cysylltu Dinbych y Pysgod yn y De a Bangor yn y Gogledd ac mae faniau, lorïau a cherbydau nwyddau trwm yn rhuthro drwy'r pentref yn arbennig wrth gyrraedd a gadael y pentref.

Er bod arwydd 20 milltir yr awr tu allan i'r ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd, gwelir gyrwyr yn teithio'n llawer rhy gyflym ac yn diystyrru'r cyfyngiadau cyflymder. Yr un yw'r stori rhwng y Llew Gwyn a'r Spar hefyd ac oherwydd bod y palmant mor gul yn y man hwn rhaid i bobl gerdded fesul un rhag cael eu bwrw gan draffig. Mae'n broblem ddifrifol iawn os yw pobl yn gwrthio pramiau a bygis. Mae llawer o deuluoedd yn byw yn ochr ddeheuol y pentref nawr ble nad oes palmentydd. Os na fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa yn y pentref, mae damwain ddifrifol os nad angheuol yn anochel.

Yn y cyfarfod galwyd am ymestyn terfyn cyflymder o 40mya naill ochr i'r pentref cyn newid i 30mya yn ogystal â chadw'r cyflymder rhwng Tal-y-bont a Thalesin yn 40mya.

Galwyd am ostwng y cyflymder tu allan i Faes y Deri i 30mya chynyddu'r amser y bydd yr arwyddion 20mya ymlaen tu allan i'r ysgol a'r Cylch Meithrin i adlewyrchu'r amseroedd prysur, amseroedd codi o'r Cylch Meithrin, amseroedd clybiau ar ôl ysgol ac ati.

Mynegwyd yr angen i faniau mesur cyflymder i ymweld â'r pentref yn fwy aml. Cynigwyd hefyd i ddod a chroesfan sebra neu belican ger yr ysgol i sicrhau man mwy diogel i'r plant groesi gan nad oes tywysydd yn bresennol ers blyneddau bellach. Cytunodd Elin Jones ac Ellen ap Gwynn godi'r mater gyda'r Adran Drafnidiaeth yn y Cynulliad a chynnal cyfarfod cyn gynted â phosib i benderfynu a thrafod y ffordd ymlaen gyda'r trigolion lleol.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

1. Cymorthdaliadau 2017/18
Derbyniwyd argymhellion yr Is-bwyllgor Ariannol. Cytunwyd i ddosrannu cyfanswm o £3,400 mewn grantiau rhwng y cymdeithasau a'r clybiau lleol canlynol: Y Neuadd Goffa; Cylch Meithrin; Cymdeithas Maes Chwarae'r Odyn Galch; Cymdeithas Papur Pawb; Clwb Pêl-droed; Pêl-droed Ieuencid; Clwb Ffermwyr Ieuainc; Ffrindiau Cartref Tregerddan; Merched y Wawr; Cymdeithas Amaethyddol a Garddwriaethol Tal-y-bont a Gogledd Ceredigion. Cytunwyd hefyd i rannu £125 rhwng 2 grŵp sirol, sef Cangen Ceredigion Urdd Gobaith Cymru a Cruse Ceredigion: Cefnogaeth mewn Galar. At hyn, rhannwyd £360 rhwng yr elusennau Cenedlaethol canlynol: Ambiwllans Awyr Cymru; Canolfan Therapi Plant Bobath; Marie Curie; Tenovus; a Chalonnau Cymru.

2. Gosod Arwydd Ffordd "Plant yn Chwarae", Bont-goch

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn am ddiweddariad ynglŷn â gosod arwydd 'Plant yn Chwarae' ger mynedfa parc chwarae Bont-goch. Er i'r Cyngor Cymuned dderbyn cadarnhad bod y Cyngor Sir wedi prynu arwydd, nododd y Cynghorydd Emyr Davies bod arwydd dros dro wedi'i chael ei osod yno. Esboniodd yr Uwch Beiriannydd Rheolaeth Draffig Cyngor Sir y byddai'n ymchwilio i pam nad oedd yr arwydd wedi cael ei osod hyd yn hyn, er cynigwyd fod posiblirwydd iddo lithro lawr y

rhestr gwaith oherwydd llwyth gwaith uchel yr adran yn ystod y gaeaf yma.

3. Goleuadau Stryd – Maes y Deri

Nodwyd gofid trigolion Maes y Deri fod diffyg golau ar y llwybr troed rhwng yr ystâd a'r Cae Bach. Mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn dyfalbarhau gyda thrafodaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion a Thai Ceredigion ers misoedd bellach er mwyn datrysiaid y mater. Adroddodd y Clerc y newyddion calonogol fod y Cyngor Sir wedi cytuno i symud y golau stryd yn ystod y misoedd nesaf.

4. Gwasanaeth Ffôn Symudol – Diffyg Signal

Adroddodd y Clerc bod y Cyngor wedi derbyn ymateb i'w llythyr i'r Aelod Seneddol Ben Lake ynglŷn â diffyg gwasanaeth ffôn symudol ym Mont-goch a Chwm Ceulan. Cytunodd Ben bod diffyg gwasanaeth ffôn symudol yn broblem ddifrifol, a phoenai bod mapiau'r cwmnïoedd ffôn yn nodi yn anghywir bod modd derbyn gwasanaeth ffôn yn yr ardaloedd yma. Gan hyn, esboniodd ei bod wedi trefnu cyfarfod gydag un o swyddogion EE er mwyn trafod y sefyllfa hon ymhellach. Nododd y byddai'n cysylltu gyda'r Cyngor ar ôl y cyfarfod er mwyn trafod y mater ymhellach, ac i benderfynu ar yr hyn fydd angen ei wneud nesaf.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr CLERC I'R CYNGOR

Gwahoddir ceisiadau am y swydd rhan-amser (tua 34 awr y mis) uchod i ddechrau cyn gynted â phosib.

Am ragor o fanylion, a swydd-ddisgrifiad, cysylltwch â Lowri Jones: 07886 367027 | cyngorcam@gmail.com

Dyddiad Cau: 16 Mawrth 2018

Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol i'r swydd yma.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Llythyron

Hanes Llifogydd yn yr Ardal

Diddorol oedd darllen cofnodion am y glaw a fu'n disgyn yn lleol gan Gwilym Jenkins ym Mhapur Pawb mis Ionawr.

Rydym i gyd yn cofio'r llifogydd yn Nhal-y-bont yn 2012, ond bu rhai llawer gwaeth yn y gorffennol. Wrth chwilio drwy hen bapurau newyddion Cymreig (<http://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/> – diolch i LLGC) ar gyfer prosiect peint-o-hanes, fe ddes i o hyd i adroddiad yn The Welshman o fis Chwefror 1848, a oedd yn adrodd am law trwm a llifogydd dychrynlyd gyda Gogledd Ceredigion yn dioddef waethaf.

Fe barhaodd y glaw trwm yn 1848 am ddau ddiwrnod, ond ar ben hynny roedd yr eira ar y brynau o gwmpas Pumlumon yn toddi a rhedeg i mewn i'r afonydd. Yn ein hardal ni, diflannodd Cwrs Fochno yn gyfan gwbl: "Roedd y darn o dir sy'n ymestyn am sawl erw o Dre'r Ddôl i'r Borth, ac oddi yno ar draws y tir gwastad ar bwys Moelyns i'r Fferi, yn llyn mawr di-dor o ddŵr ffres". Bu pentref Tal-y-bont ei hun dan ddŵr a bu raid i deithwyr ar droed ar y tyrpeg gael eu cario ar gefn ceffyl drwy'r llifeiriant.

Bu problemau mawr yn ardal Aberystwyth ac ar lannau'r Rheidol hefyd. Gorlifodd y Rheidol, ac roedd dolau Llanbadarn dan ddŵr hyd at dref Aberystwyth. Ymestynnodd y dŵr i mewn i'r dre ei hun, yn arbennig rhwng Rhodfa'r Gogledd ac argae'r Felin, gan gynnwys Mary Street a Lewis Terrace (Ffordd-y-Môr isaf a Ffordd Alexandra bellach) gyda selerau a cheginau yn llenwi. Yn Lôn Cambria (Moor-street fel y'i henwyd y pryd hwnnw) cafodd Christopher Hall, tafarnwr y "Coachbuilder's Arms", gryn drafferth wrth i'r llifogydd bron â llenwi ei seler. Ond, fel y dywedodd e ar y pryd "the best double X is untouched, and as strong as ever!" Diolch i'r drefn am hynny!

Nid eiddo yn unig a ddioddefodd. Fe suddodd y llong John a Mary, o'r Borth, a oedd ar fordaith i Aberdyfi, o fewn canllath i harbwr Aberystwyth, a boddwyd y Capten a'r Mêt. Fe foddwyd hefyd bugail o'r ucheldir ger Pumlumon, a oedd yn ceisio croesi'r afon gyda'i ferch ar ben ceffyl pan gwympodd y ceffyl – daethpwyd o hyd i'w gorff noeth rhyw 30 milltir i lawr y Rheidol.

Roedden ni'n gymharol lwcus yn 2012!

Nigel Callaghan, Taliesin

Pontydd Dyfi

Mae'n rhyfedd sut mae rhywbeth yn gallu ysgogi teimladau mor wahanol mewn gwahanol bobl! Er fy mod i'n cydymdeimlo â rhwystredigaeth Lefi ynglŷn â Phont ar Ddyfi, alla i ddim gadael iddo gael y 'gair olaf' am Bont y Mileniwm! Dw i wrth fy modd â hi ac yn cerdded drosti efo'r gŵr yn weddol aml! Rydyn ni hefyd wedi gweld beicwyr a cherddwyr eraill yn ei defnyddio! I mi, mae'n hardd ac yn hwyluso pethau i gerddwyr a beicwyr wrth fynd am dro vn y fro. A phan fydda i'n dod yn ôl i Fachynlleth ar y trên ar ôl bod i ffwrdd, bydda i'n chwilio am y bont drwy'r ffenest ac o'i gweld hi'n meddwl, "Hwrê, dw i adre!"

Siân Saunders

Cigydd

Porchell

01970 828 447 Pendre, Bow Street

Pa brofiad sy'n well
na blasu cigoedd 'Porchell'?

CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Annwyl Ddarllenwyr Papur Pawb,
Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2018.

Yr ysgrifennydd yw Delyth Davies,
Bryn Siriol, Lluest, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3AU
01970 617397 e-bost martin.davies1@mypostoffice.co.uk

Pontio'r Cymry a'r Basgiaid

Cynhaliwyd noson fywiog a gwahanol yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont nos Wener, Ionawr 12fed pan ddaeth criw o gerddorion o Wlad y Basg draw i gynnal noson ar y cyd â rhai perfformwyr o Gymry. Roedd y ddwy wlad yn perfformio ar wahân yn rhan gynta'r noson ond yn uno yn yr ail hanner fel "Zubiko Banda / Band y Bont".

Ymhlith yr uchafbwyntiau oedd cân fyrfyfyr gan farddones o Wlad y Basg, oedd yn cyfansoddi'r geiriau yn fyw yn y fan a'r lle gan ddewis un o 3,000 o donau Basgaidd i'w canu arni. Llwyddodd i greu cerdd gall yn cynnwys y gair "banana" ac ar yr un pryd yn cyfleu cyfeillgarwch y ddwy wlad. Ymhlith y perfformwyr o Gymru oedd Gwilym Bowen Rhys a Iestyn Tyne, oedd, yn ogystal â chwarae'r ffidil yn rhyfeddol o gyflym, yn adrodd nifer a gerddi a gyfansoddodd pan ar ymweliad diweddar a Gwlad y Basg.

Cynhaliwyd noson debyg yn union flwyddyn yn ôl ac unwaith eto roedd pawb yn gadael y Llew Gwyn yn teimlo'n brafach a chynhesach nag wrth fynd i mewn ac yn feddyliol yn nodi Gwlad y Basg fel posibilrwydd gwyliau. Trefnwyd y noson gan Meic Llywelyn a Chynrychiadau Pam Lai, gyda Sesiwn Nos Wener yn gofalu am y trefniadau lleol.

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

**GOSTYNGIAD
HYD AT
HANNER
PRIS**

**Hanner tymor yma
cymerwch daith deuluol i lawr
lôn cof i weld y newidiadau**

10^{fed} i'r 25^{ed} o Chwefror 2018

THE VALE OF RHEIDOL RAILWAY
RHEILFFORDD CWM RHEIDOL

**OEDOLION A MYFYRWYR
OND £11
HYD AT HANNER PRIS**

**PLANT
(3 - 15 oed)
OND £6
HYD AT HANNER PRIS**

**MAE RHEILFFORDD CWM RHEIDOL YN CYNNIG
TEITHIAU RHATACH I BOBL LEOL O ARDALOEDD
COD POST SA, SY, LD YN YSTOD
HANNER TYMOR MIS CHWEFOR 2018**

ABERYSTWYTH I BONTARFYNACH

www.rheidolrailway.co.uk - 01970 625 819
Park Avenue, Aberystwyth, SY23 1PG - Charity No 1076037

Ymwybyddiaeth Awtistiaeth



Pan oeddwn i'n ifanc, nid oedd awtistiaeth yn rhywbeth a gafodd ei ddiagnosisio'n aml, yn enwedig mewn merched. Wrth i ddealltwriaeth dyfu, mae mwy a mwy o fenywod yn cael eu diagnosisio fel oedolion. Cefais gadarnhad fy mod i yn awtistig ddwy flynedd yn ôl, yn fy nhridegau.

Mae llawer o gamddealltwriaeth ynglŷn ag awtistiaeth. Mae rhai pobl yn ei weld fel rhywbeth dychrynlyd a rhyfedd, rhywbeth estron. Ers fy diagnosis, rwyf wedi bod yn ysgrifennu blog am fy mhrofiadau, ac mae fy ngeiriau wedi cael eu rhannu ar draws y byd i gyd.

Mae'n anhygoel derbyn neges gan rywun yn Peru i ddweud bod fy erthygl yn eu disgrifio nhw hefyd.

Llynedd, cynhaliodd Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru gwrs ar gyfer oedolion awtistig ynghylch sut i siarad yn gyhoeddus am ein profiadau. Mae pawb wedi clywed am awtistiaeth, ond nid oes llawer o bobl wir yn deall yr hyn y mae'n ei olygu. Yn enwedig pan fo menywod awtistig yn ymddwyn yn wahanol i ddynion awtistig.

Trwy esbonio awtistiaeth, a'r rhesymau tu ôl i'r hyn sy'n gallu ymddangos fel ymddygiadau rhyfedd, rwy'n gobeithio helpu pobl i sylweddoli bod pobl awtistig yn rhan bwysig o'n cymuned. Mae angen dealltwriaeth arnom ni i gyd.

Eleni, rydw i wedi cael fy ngwahodd i fod yn siaradwr mewn digwyddiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth. Eleni hefyd caiff drama yr wyf wedi'i hysgrifennu am fenyw awtistig ei pherfformio, "The Duck". Rydyn ni'n gobeithio perfformio yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth tua mis Mehefin.

Rydwn i'n ddiolchgar am gael fy magu yng Nghymru. Mae'r cariad tuag at farddoniaeth wedi rhoi mwy o ffyrdd i mi gyfathrebu fy myd i. Hyd yn oed os nad ydym yn meddwl yn yr un ffordd, dysgais bod modd i chi ddeall fy myd drwy farddoniaeth ac ysgrifennu.

Rhiannon Lloyd-Williams

Blog Rhiannon yw Autnot.wordpress.com

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi


Bocs a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS
www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BUDDODDWR
IN PEOPLE | MEWN POBL



Swydd Cynorthwyydd yn Nghylch Meithrin Tal-y-bont (dros gyfnod mamolaeth)

Cyfle cyffrous i ennill profiad arbennig fel cynorthwyydd mewn Cylch Meithrin llwyddiannus a chyfeillgar. Rydym yn edrych am gynorthwyydd brwdfrydig a hwyliog sydd â chymhwyster blynyddoedd cynnar cydnabyddedig addas ar Lefel 3 neu uwch. Mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn hyderus yn y Gymraeg.

Dyddiad cau: 12 Chwefror 2018
Oriau: 15, Llun i lau 8.15 y.b. – 12.y.p.
Cyflog: Yn dibynnu ar brofiad.

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio, anfonwch eich CV at Cathryn Lloyd-Williams ar
cylchmeithrintal-y-bont@hotmail.co.uk
Ffôn 07985 716496.

Cadw Enw Fferm ar Fusnes Lleol

Derbyniodd menter lleol newydd sy'n cynnig gwyliau 'glampio', neu wersylla moethus, ar eu fferm sylw negyddol yn ddiweddar. Nid oherwydd eu bod yn mentro – mae mwy a mwy o bwysau ar ffermwyr i arallgyfeirio – ond oherwydd yr enw roeddent wedi ei ddewis ar gyfer eu busnes.



Llun oddi ar dudalen Facebook

Roedd beirniadaeth gref ar gyfryngau cymdeithasol, ac yng nghylchgrawn arlein Golwg360, ynghylch y penderfyniad i alw eu busnes ar fferm Bwlcheinion yn 'Mountain Sea View' yn hytrach na chadw enw Cymraeg hyfryd y fferm ar gyfer y busnes. Yn ôl y perchnogion, roeddent yn pryderu ynghylch colli cwsmeriaid nad oeddent yn gallu ynganu geiriau Cymraeg. Mae cwmnïau hefyd yn gorfod meddwl am ddefnyddio geiriau arbennig fydd yn codi wrth i gwsmeriaid chwilio am wyliau ac yn rhoi geiriau penodol ar beiriannau chwilio ar y we. Ond roedd gwrthwynebwyr o'r farn bod ymdeimlad o le, gan gynnwys treftadaeth a iaith, yn bwysig i dwristiaid sydd yn ymweld ag ardaloedd a gwledydd eraill.

Yn y pen draw, yn dilyn y gwrthwynebiad, penderfynodd y perchnogion gadw enw Cymraeg y fferm yn nheitl y busnes sef 'Bwlcheinion Sea view Pods'.

Eglwys Efengylaidd
Aberystwyth

NOSON GWYL DDEWI

Canolfan y Gymuned, Waunfawr
Mawrth 10fed am 6:00 yh

Croeso Cynnes i Bawb!

Siaradwr:
Y Parch
Roger Thomas
Caerfyrddin

www.eglwysefengylaiddaberystwyth.co.uk



CHWEFROR

Fel arfer, y mis hwn mae arwyddion fod y gwanwyn yn agosáu. Mae rhai o'r bylbiau yn ymateb i lefelau uwch o oleuni ac yn deffro a chan fod y tywydd yn cynhesu mae rhai anifeiliaid yn deffro o'u gaeafgwsg. Mae digonedd i'w wneud dan do wrth gynllunio ar gyfer y tymor sydd i ddod. Y tu allan, mae'n amser i docio llwyni a phlanhigion sy'n dringo, megis Wisteria a llwyni bythwyrdd.

Tasgau mis Chwefror

1. Pan fo'r pridd yn weddol sych, paratowch y gwely ar gyfer rhai llysiau. Gallwch blannu rhai hadau yn y tŷ gwydr.
2. Gosodwch eich tatws hadyd i egino. Mae bocsys wyau yn ardderchog ar gyfer hyn - ac mae dewis tatws o faint wyau yn syniad da. Cofiwch osod y llygaid ar i fyny.
3. Rhowch rwyd ar y llysiau a'r ffrwythau er mwyn cadw'r adar oddi arnyn nhw.
4. Gallwch docio unrhyw lwyni sydd wedi blodeuo dros y gaeaf.
5. Rhannwch fylbiau eirllysiau a phlannwch nhw tra bod y gwyrddni yn dal arnyn nhw.
6. Tociwch y Wisteria.
7. Gallwch dorri llwyni coed bythwyrdd a thacluso rhai eraill.

Blodau'r Gaeaf Er gwaetha dyddiau byr ac eira cynnar a rhew, mae coed a phrysgwydd wedi blodeuo. Dyma ddeg sy'n codi calon ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Chimonanthus Blodau melyn clir. Mae mwy o flodau ar ôl haf cynnes. Mae'n tyfu hyd at 6'.

Cornus 'Golden Glory' Mae hwn yn cynhyrchu llawer o flodau, ffrwythau coch a deiliach porffor yn yr Hydref. 15'

Cornilla Mae hwn yn blodeuo am amser hir ond ar ei orau nawr. 3'

Hamamelis Blodau lliwgar ac mae ganddo bersawr cryf. 12'

Mahonia 'Underway' Mae hwn ychydig yn fyrrach na'r gweddill o'r teulu - blodau syth ar bigau hir yn drawiadol. 10'

Mae gan y 5 uchod flodau melyn, fel nifer o flodau'r gwanwyn.

Erica 'Springwood White' Mae'r grug yma yn dipyn o ffefryn, yn lliwgar a dibynadwy a heb fod yn ddibynnol ar bridd asid.

Daphne. Un o'r goreuon o'r prysgwydd persawrus, a blagur coch yn agor i flodau mawr gwyn. 8'

Skimmia Kew Green Cysylltwn Skimmia gydag aeron coch ond mae gan hwn lawer o flodau gwyn persawrus. 3'

Viburnum Bodnantense 'Dawn' Blagur coch-binc sy'n agor i sypiau toreithiog gwyn ag ymylon pinc, sy'n gwrthsefyll rhew.

Viburnum Tinus Gwelllian Mae'n fythwyrdd gyda blagur pinc tywyll yn newid i flodau gwyn ac wedyn fe geir aeron glas-ddu, weithiau ar yr un adeg. Tyfwyd yn Kew tua chanol y ganrif ddiwethaf. (drwy garedigrwydd Llais Ardudwy)

argraffu da
am bris da

Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Colofn Ben Lake

Amddiffyn gwasanaethau hanfodol yn ein cymunedau gwledig



Roedd cyhoeddiad NatWest ym mis Rhagfyr am eu bwriad i gau eu canghennau yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn 2018 yn ergyd galed i'r ddwy dref a'r ardaloedd cyfagos.

Bydd yr ymgyrch i amddiffyn gwasanaethau bancio yn ein cymunedau yn flaenoriaeth i mi yn San Steffan dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, cefais gyfle i herio penderfyniad NatWest mewn cyfarfod un-i-un gyda chyfarwyddwr y banc yn San Steffan. Bu i mi rannu pryderon a godwyd gan fy etholwyr gan ddatgan fy siom o weld y banc yn cefnu ar y cymunedau a'r cwsmeriaid hynny sydd wedi bod yn ffyddlon iddynt ers degawdau. Llai na degawd ar ôl i drethdalwyr achub eu crwyn pan oedd yr argyfwng ariannol ar ei gwaethaf, maent nawr yn bygwth tansilio sylfaen ariannol yr economi leol gyfan.

Mewn cydweithrediad ag Elin Jones AC ac Undeb Amaethwyr Ceredigion, cynhaliwyd dau gyfarfod cyhoeddus yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn ddiweddar er mwyn ymgynghori a gwrandao ar farn pobl leol am benderfyniad NatWest. Bu'r ddau gyfarfod yn gyfle i drafod syniadau ymarferol ac arloesol ar gyfer gwasanaethau bancio'r dyfodol, gan gynnwys y posibilrwydd o ail-leoli banciau'r stryd fawr mewn un hwb bancio canolog ymhob tref.

Mewn dadl ddiweddar ar wasanaethau bancio yn Westminster Hall, galwais ar Lywodraeth Prydain i drefnu uwchgynhadledd ar fyrder, gan ddod â phob un o'r prif fanciau ynghyd i drafod eu cynlluniau hirdymor ar gyfer eu rhwydwaith o ganghennau.

Ers y cyhoeddiad, mae nifer fawr o etholwyr, busnesau a chymdeithasau wedi cysylltu â mi i ddatgan eu siom, ac i fynegi eu pryderon am y dyfodol. Dyma enghraifft arall, eto fyth, o gymunedau gwledig yn cael eu hamddifadu o wasanaethau hanfodol. Dyma ofyn, felly, a yw hi'n bryd i ni drafod pa wasanaethau fedrwn ni ddim ymdopi hebddyn nhw yn ein trefi a'n pentrefi?

Ffynnon Sanctaidd yn Eglwysfach

Tybed faint ohonoch sydd yn gwybod fod yna ffynnon sanctaidd wedi ei darganfod ym mynwent Eglwysfach. Cysegrwyd ffynnon Santes Non gan y Parchedig Joanna Penberthy, esgob Tŷ Ddewi, mis Medi diwethaf. Daeth hyn i'r amlwg mewn llyfryn yn dyddio o 1933 yn llawn o draddodiadau a phroffwydolaethau a ysgrifennwyd gan Huw Rees, Eglwysfach, hen ewythr i John Griffiths, Fferm Ffwrnais. Dyma ddarnau bach o'r hanes:

Wrth waelod yr hen fynwent
'Roedd ffynnon o fri mawr

Fe gredai'r hen blwyfolion
Fod rhinwedd yn ei dŵr
A phob un a'i defnyddia
Iachad fe gai yn siwr.

Efallai byddai yn werth ystyried ymweld â'r hen ffynnon os ydych yn dioddef o gryd cymalau neu anhwylder!



Llun: Arvid Parry

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT

Cyfarfod Blynnyddol

Nos Lun Mawrth 5ed 2018,
8 o'r gloch yr hwyr
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Croeso cynnes i bawb

Yn Eisiau Dros Dro

Ysgrifennydd y Babell
Cysyllter â Susan Rowlands
01970 832 215
Mor fuan a phosib

Cletwr

Digwyddiadau

Mae hi wedi bod yn fis hynod o brysur eto yn Cletwr, gyda'r siop a'r caffi yn cael llawer o ymwelwyr newydd (a hen).

Rydyn ni wedi cael nifer o bobl i mewn i siarad gyda'r nos, gan gynnwys Naomi Davis o'r RSPB yn siarad am adar yn yr ardd, a James January-McCann o'r Comisiwn Brenhinol yn siarad am enwau llefydd a thai. Cewch weld beth sydd yn y dyddiadur ar gyfer mis nesaf ar ein gwefan a thudalen Facebook.

Un o amcanion pwysicaf Cletwr yw cadw'r gymuned yn iach! Ac mae dau ddigwyddiad rheolaidd bellach wedi cychwyn i helpu. Bob bore Sul am 9.30 mae Rhedeg Cymdeithasol – dim byd rhy anodd! – ac am 11.00 bob bore Mawrth mae 'Cerdded a Chlonc'. Dim ond tua 45 munud, ond cyfle ichi gael peth ymarfer wrth sgwrsio a chymdeithasu.

Hoffi pobi? Beth am ymuno a'n tîm o bobyddion gwirfoddol, sy'n helpu gwneud y cacennau blasus sydd ar werth yn y caffi? Dewch i mewn am fwy o fanylion.

Ac un peth arbennig – 11.00 dydd Sul, 18 Chwefror, taith tywys hanesyddol o gwmpas Tre'r Ddôl a Thaliesin, yn y Gymraeg, dan arweiniad Nigel Callaghan.

Mae croeso mawr i unrhyw syniadau ar gyfer digwyddiadau yr hoffech eu gweld yma – e-bostiwch ni ar: events@cletwr.com neu ffonio 01970 832113.



Rhedeg Cymdeithasol yng Nghwm Cletwr

Pob bore Sul ers y 14^{eg} o Ionawr mae criw o redwyr o bob oedran a gallu wedi bod yn cwrdd yn siop Cletwr am 9.30 i redeg 3–5km. Maent yn griw cyfeillgar a chefnogol, ac mae'n ffordd dda iawn o gymdeithasu a llosgi calorïau. I'r rhai hynny sydd ddim yn ffansio rhedeg mae hefyd grŵp 'Tro a Chlonc' yn mynd am dro o Gletwr pob bore dydd Mawrth am 11.00yb.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Roedd tipyn o gyffro'n y gangen nos Lun, 15 Ionawr wrth i Rhys Meirion ymweld â ni er mwyn recordio ei raglen radio 'Dewch am dro'. Yn ei ffordd gynnes a chartrefol bu'n holi hynt a helynt yr aelodau ac am hanes y gangen dros y 43 mlynedd diwethaf.



Rhys Meirion gyda'r merched

Yna yn dilyn cwpaned a chlonc, croesawodd Ann Jenkins, trefnydd y noson, Lona Mason atom. Mae Lona yn Bennaeth Graffeg a Sain a deunydd gweledol yn y Llyfrgell Genedlaethol. Gan fod 2018 yn ganmlwyddiant geni Kyffin Williams addas iawn oedd ei chlywed yn adrodd hanes bywyd a gwaith yr artist arbennig yma. Gyda chymorth y cyfrifiadur dangosodd luniau o'i waith dros wahanol gyfnodau yn ei fywyd gan roi cefndir a gwybodaeth ddiddorol amdanynt. Cawsom glywed am ei haelioni yn cyfrannu dros 300 o'i luniau ynghyd â swm mawr o arian i Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac i'r Genedl yn dilyn ei farwolaeth a sut yr aethpwyd ati i'w casglu ac i ofalu amdanynt.

Dechrau Chwefror bydd arddangosfa arbennig o waith Kyffin Williams yn cael ei hagor yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Diolchwyd i Lona am noson hynod o ddifyr yn llawn gwybodaeth.

**Beirniadir
'Da' gan
Estyn**

**Cylch Meithrin
Tal-y-bont**

**Beirniadir
'Rhagorol'
gan Mudiad
Meithrin**

**Ar gyfer plant oedran 2-4
Ty Sbri, Ysgol Tal-y-bont**

**Mae'r plant yn cymdeithasu a dysgu
trwy chwarae dan arweiniad staff
proffesiynol, cymwys a brwdfrydig.**

Llun – Iau, 9.00-12.00
Oedran 2-3 £8.00 y sesiwn
Oedran 3 (wedi ariannu) £7.00 yr wythnos

Clwb Brecwast 8.15 – 9.00
£2.00 y sesiwn

cylchmeithrintal-y-bont@hotmail.co.uk

**CANOLFAN
M.O.T.
HUW
LEWIS
TYRES**

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon

**TEIARS
HUW
LEWIS
TYRES**

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

10

Dysgwr y Mis Sarah Lloyd-Williams



Mae Sarah o Cumbria yn wreiddiol. Symudodd i'r ardal a phriododd Rhodri Lloyd-Williams, Moelgolomen. Mae ganddyn nhw dri o blant.

Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?

Er mwyn gallu rhoi cymorth i'r plant gyda'u darllen, ac i ddeall y cyngerdd ysgol.

Beth yw'r peth mwyaf anodd am ddysgu Cymraeg? Treiglo!

Pam bod Cymraeg yn bwysig?

Mae'n sgil bwysig i fod yn ddwyieithog, mae'n helpu cyfathrebu, yn sicrhau bod fi'n cael fy nghynnwys, ac yn gwella cyfleoedd i fi a fy mhlant.

Oes unrhyw beth all ein darllenwyr wneud er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr?

Mae bod yn gyfeillgar a siarad yn araf yn helpu. Os yr ydych yn deall yr ystyr plis peidiwch â chywiro dysgwr gormod achos ni'n colli hyder. Os allwch chi barhau i siarad yn Gymraeg yn lle newid i Saesneg mae hyn yn gymorth mawr. Mae'n helpu lot os gallaf gael sgwrs gyfan yn Gymraeg heb newid i Saesneg. Newydd ddechrau ydw i felly mae'n anodd!

Beth yw eich hoff eiriau Cymraeg?

Smwddio, cariad, sws, ac mae 'rhad ac am ddim' yn un od!

Beth yr ydych yn mwynhau am ddysgu Cymraeg?

Mae'n iaith anodd i ddysgu ond mae'n iaith mor brydferth. Mae'r gwersi Cymraeg yn hwyl ac mae'r athro yn gefnogol iawn. Mae'r dysgwyr eraill i gyd yn wahanol, ac o wahanol gefndiroedd. Rydym yn helpu ein gilydd, mae hi wedi bod yn grêt cwrdd â nhw gyd.

Rhestr termau

Dwyieithog – Bilingual
Cyfathrebu – Communicate
Cyfleoedd – Opportunities
Prydferth – Beautiful
Cefndiroedd – Backgrounds

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Y Gair Olaf




Petai rhywun yn gofyn i chi ddiffinio'r gair 'perthyn' mae'n siŵr y buasech yn cyfeirio, i gychwyn, at eich perthnasau gwaed ac yna'r gymuned sydd o'ch cwmpas. Byddwn fel Cymry, yn ogystal, yn sôn ein bod yn 'perthyn' i genedl ag iddi hanes ac iaith.

Mynegwn falchder o'n cenedl a chawn nerth o'r ffaith ein bod yn perthyn iddi gan gyfeirio at gwerthoedd sydd yn ein cynnal. O ystyried y bygythiadau sydd wedi wynebu Cymru ar hyd y canrifoedd tybed os taw'r ffaith ein bod yn fodlon derbyn â breichiau agored unrhyw un sydd yn dewis 'perthyn' i'n cenedl sy'n gyfrifol ein bod wedi goroesi?

Ers i'r Celtiaid gyrraedd o dir mawr Ewrop a goresgyn y llwythi brodorol ar Ynys Prydain a gosod eu diwylliant a'u hiaith ar y cornel hwn o'r byd fe welwyd pob math o newidiadau i'r boblogaeth, ond yr hyn a unodd y trigolion, pob cam o'r daith, oedd eu gallu i gyfathrebu yn yr un iaith ac i drosglwyddo eu diwylliant a'u gwerthoedd o genhedlaeth i genhedlaeth yn yr iaith honno.

A heddiw, yn yr 21^{ain} ganrif mae modd i unrhyw un ddod yn Gymro neu'n Gymraes beth bynnag yw eu tras a'u hil, eu crefydd neu eu lliw. Does neb yn gofyn am dystysgrif geni, na phrawf DNA nac yn mesur maint penglogau. Mor wahanol yw ein cenedligrwydd ni i'r hyn a welir gan y gwledydd mawr sy'n seilio eu hunaniaeth ar hanes gwaedlyd o oresgyn a gormesu pobloedd ac ar burdeb yr hil. Cofiw'n hyn wrth ddathlu gŵyl ein nawddsant gyda balchder.

Phil Davies



"Dwi'n synnu fod neb wedi meddwl gwneud hyn o'r blaen!"



Ar fore oer a gwlyb ddydd Sul 21 Ionawr fe redodd Vicky Joseph, Holly Aubrey a Ceri Morgan mewn ras 10 cilometr yn Nhregaron. Llwyddodd y tair i orffen y cwrs o gwmpas Cors Caron mewn amseroedd parchus, sef o fewn 1 awr 3 munud. Mae Vicky, Holly a Ceri, ymhlith eraill, hefyd yn aelodau o'r grŵp sy'n rhedeg bob bore Sul o Gaffi Cletwr, Tre'r ddôl.

CHWARAEON

Ymlaen yn y Gwpan

Gyda'r gobeithion am ennill y bencampwriaeth wedi hen ddiflannu, mae clwb Tal-y-bont yn anelu erbyn hyn at gadw gafael ar y gwpan a enillwyd y tymor diwethaf, sef Cwpan y Cynghair.

Ar ddydd Sadwrn 13 Ionawr, llwyddwyd i guro Padarn United oddi cartref o dair gôl i ddim. Uchafbwynt y fuddugoliaeth oedd camp Sonny Paluch yn sgorio gôl yn ei gêm gyntaf fel oedolyn. Mae Sonny newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 16 mlwydd oed ac felly yn rhydd i chwarae i Dal-y-bont, wedi cyfnod llwyddiannus gyda thîm dan 16 y pentref. Y sgorwyr eraill oedd Anthony Vasquez a Jamie Morgan. Ymlaen felly i'r rownd nesaf.



Dau gefnder: Robbie Southgate (Padarn) a Barri Southgate (Tal-y-bont) yn cwrso'r bêl (llun drwy garedigrwydd Bev Hemmings).



Harry Whalley, un o fechgyn addawol Tal-y-bont, yn rheoli'r bêl (llun drwy garedigrwydd Bev Hemmings).

Glyn Ovens – Syrfffiwr i'r Eithaf

Magwyd Glyn Ovens yn Tan y Cae, ger Tal-y-bont ac mae'n enwog heddiw fel syrffwr tonnau mawr ac un o'r gyrwyr sgi jet achub gorau'r byd.

Mae newydd ddychwelyd o antur a barodd ddau fis yn Nazaré ym Mhortiwgal, yn mynd ar drywydd y don fwyaf enfawr yn y byd. Hyn yw syrffio i'r eithaf.

Esboniodd Glyn ei bod hi'n bwysig paratoi a hyfforddi tuag at reidio'r tonnau enfawr, dydy e ddim yn sgil sy'n datblygu dros nos. "Dechreuais i, fel pawb, drwy reidio tonnau bach yn Borth yn y 90au. Dros y blynyddoedd rwyf wedi datblygu'r sgiliau a'r hyder i daclo tonnau mwy a mwy o faint."

Wyneba Glyn sefyllfaoedd peryglus yn aml wrth syrffio, ac mae wedi dod yn agos at foddï. "Y perygl mwyaf yw colli dy hyder, mae'n bwysig peidio â chynhyrfu", dywedodd. Erbyn hyn mae'n gwisgo siaced bywyd arbennig sydd yn ei alluogi i reidio tonnau mwy gyda bach o amddiffyniad.

Mae'r tonnau mae Glyn yn mynd ar eu hôl yn rhy fawr i'w dal mewn ffordd arferol trwy badlo. Mae Glyn a'i dîm yn defnyddio sgi jet i halio fewn i'r tonnau, ac ar gyfer achub syrffwyr. "Rydym yn gweithio yn agos fel tîm, ac ar y diwrnodau mawr, bydd un ohonom ar y clogwyni yn gwylïo trwy ysbienddrychau ac yn cyfathrebu gyda'r sgi achub."

Mae gyrrwr cymwys gan bob sgi achub, ynghyd â chyfarpar achub bywyd. Esboniodd Glyn bod rhaid bod yn barod at unrhyw sefyllfa gan fod syrffio tonnau mawr mor beryglus.

Oes byth ofn arno? Dywedodd Glyn bod unrhyw un nad yw'n ofni tonnau mawr yn dweud celwydd neu'n nyts! "Mae'n bwysig i reoli'r ofn er mwyn ei ddefnyddio fel ffocws".

Roedd 2017 yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Glyn a'r uchafbwynt oedd priodi ei gariad Lucy yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Felly beth nesaf i Glyn Ovens? "Byddaf yn teithio i Awstralia yn fuan i hyfforddi, a dal bach o haul! Pan yr ydych yn gwrthio'ch hunan i'r eithaf mae'r corff yn dioddef ac felly bydd y dŵr cynnes yn fuddiol iawn!" Dymunwn pob lwc iddo.



Llun: Simon Basset

LRJ
Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth

617164

Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30